

**Criminal Injuries Compensation Authority**

**Welsh Language Scheme prepared under the Welsh Language Act 1993**

**Yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol**

**Cynllun Iaith Gymraeg a baratowyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993**

## The Criminal Injuries Compensation Authority Welsh Language Scheme

### Introduction

1. The Welsh Language Act 1993 established a duty on public organisations providing services in Wales to produce a Welsh Language Scheme. The Scheme produced by CICA received the Welsh Language Board's formal approval under Section 14 of the 1993 Welsh Language Act on 22 July 2011.
2. The Criminal Injuries Compensation Authority (CICA) has adopted the principle that, in the conduct of public business in Wales, it will treat the English and Welsh languages on a basis of equality.
3. This Scheme sets out what measures CICA will take to provide our services to the public in Wales. When drafting this Welsh Language Scheme, CICA has taken account of what is appropriate in the circumstances and reasonably practicable. We may submit revisions to the Scheme to the Welsh Language Board as and when required. No changes will be made to this scheme without the Welsh Language Board's approval.

### What we do

4. The Criminal Injuries Compensation Authority (CICA) is a government organisation that pays money to people who have been injured as a result of a violent crime in Great Britain. Our aim is **to provide an efficient and fair service to blameless victims of violent crime** by processing applications quickly whilst assessing claims fairly.
5. The CICA considers applications for incidents of personal injury in England, Wales and Scotland. The Scheme is able to make a payment to blameless victims of crimes of violence, in recognition of their pain and suffering. The Scheme can also make a fatal award and other payments to a victim's family where the victim has died as a result of their injuries.
6. In order to assess an applicant's eligibility for compensation, CICA collects information from the police, hospital authorities, employers and benefit agencies before coming to a decision on whether to make an award. We employ around 450 staff on a single-site in Glasgow and although our office is not open to the public we provide service through a variety of channels including on-line and over the telephone.
7. About 5% of the claims we receive in any year are from applicants with addresses in Wales. Around 4% of our applicants request a formal appeal of our compensation decision. This means that about 0.2% of applicants who go to appeal would be expected to have addresses in Wales. These appeals are dealt with by the First-tier Tribunal - Criminal Injuries

## Yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol Cynllun Iaith Gymraeg

### Cyflwyniad

1. Sefydlodd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ddyletswydd ar sefydliadau cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru i gynhyrchu Cynllun Iaith Gymraeg. Derbyniodd y Cynllun a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod gymeradwyaeth ffurfiol Bwrdd yr Iaith dan Adran 14 Deddf yr Iaith Gymraeg ar ??
2. Mae'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol (CICA) wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.
3. Mae'r Cynllun yn sefydlu pa fesurau fydd y CICA yn cymryd i ddarparu ein gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Wrth ddrafftio'r Cynllun Iaith Gymraeg, mae'r CICA wedi ystyried beth sy'n briodol dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol. Efallai y byddwn yn cyflwyno addasiadau i'r Cynllun i Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn ôl y galw. Ni wneir unrhyw newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

### Beth ydym ni'n wneud

4. Mae'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol (CICA) yn sefydliad llywodraethol sy'n talu arian i bobl sydd wedi eu hanafu o ganlyniad i droseddu treisgar ym Mhrydain Fawr. Ein nod yw **darparu gwasanaeth effeithiol a theg i ddioddefwyr di-fai o droseddu treisgar** trwy brosesu ceisiadau yn gyflym wrth asesu hawliadau'n deg.
5. Mae'r CICA yn ystyried ceisiadau ar gyfer achosion o anaf personol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Gall y Cynllun hefyd wneud taliad i ddioddefwr di-fai o droseddau treisgar, mewn cydnabyddiaeth o'u poen a dioddefaint. Gall y Cynllun hefyd wneud dyfarniad marwol a thaliadau eraill i deulu dioddefwr os yw'r dioddefwr wedi marw o ganlyniad i'w hanafiadau.
6. Er mwyn asesu cymhwysedd ymgeisydd am iawndal, mae'r CICA yn casglu gwybodaeth gan yr heddlu, awdurdodau ysbyty, cyflogwyr ac asiantaethau budd-daliadau cyn dod i benderfyniad ar p'un ai wneud dyfarniad. Rydym yn cyflogi oddeutu 450 o staff ar un safle yn Glasgow ac er nad yw'n swyddfa'n agored i'r cyhoedd, rydym yn darparu gwasanaeth trwy amrywiol sianelau yn cynnwys ar-lein a dros y ffôn.
7. Daw tua 5% o'r hawliadau yr ydym yn prosesu'r flwyddyn gan ymgeiswyr gyda chyfeiriadau yng Nghymru. Mae tua 4% o'n hymgeiswyr yn gofyn am apêl ffurfiol o'n penderfyniad iawndal. Golyga hyn y byddai disgwyl i tua 0.2% o'r ymgeiswyr sy'n mynd at apêl fod â chyfeiriadau yng Nghymru. Delir â'r apeliadau hyn gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf - iawndal Anafiadau

## **New Policies and Initiatives**

compensation. Many are decided at regionally held oral hearings attended by the applicant, Tribunal judges, representatives of CICA and other relevant people. Based on historical analysis we expect around 100 of appeals hearings to be held in Wales each year.

8. CICA undertakes to assess the linguistic consequences of new policies and initiatives when formulating them and to ensure that new policies and initiatives are consistent with, and do not undermine, CICA's Welsh Language Scheme or the Welsh language services of other organisations, where relevant.
9. In particular, CICA undertakes to ensure, insofar as it is within its power, that new legislation and administration procedures for which it is responsible do not prevent or hamper the use of the Welsh language.
10. Staff have been instructed to consider the effects on the Welsh language before any new policy or initiative is introduced. The measures contained in this Scheme will be applied to new policies and initiatives when they are implemented. If relevant opportunities arise, new policies and initiatives will be used to promote and facilitate the use of the Welsh language enabling CICA to give greater effect to the principle of equality of the English and Welsh languages in Wales.
11. CICA undertakes to consult the Welsh Language Board in advance regarding new policies and initiatives which will affect its Welsh Language Scheme, or which might affect the schemes of other organisations, through, where appropriate, the inclusion of the Welsh Language Board in the relevant consultation process.

## **Delivery of Services**

12. Staff have been informed of their responsibilities in respect of the Welsh Language Act and detailed guidance and instructions have been made available to those who may need to implement Welsh language measures. Staff have been made aware of the linguistic situation in Wales and their responsibilities under the Scheme through a variety of means, as appropriate to their role e.g. written guidance; seminars; staff news; etc.
13. CICA have an arrangement in place with a translation service which enables us to use an external facilitator to allow us to respond to any requests to communicate in Welsh and staff have been informed of this resource.

## **Communicating With the Welsh Speaking Public**

### **Written Communication**

Troseddol. Penderfynir ar nifer ohonynt ar lefel ranbarthol mewn gwrandawiadau llafar ble mae'r ymgeisydd, barnwyr Tribiwnlys, cynrychiolwyr CICA a phobl berthnasol eraill yn bresennol. Yn seiliedig ar ddadansoddiad hanesyddol, rydym yn disgwyl y cynhelir tua 100 gwrandawriad yng Nghymru pob blwyddyn.

### **Polisiau a Mentrau Newydd**

8. Mae'r CICA yn ymrwmo i asesu oblygiadau ieithyddol polisiau a mentrau newydd wrth eu llunio ac i sicrhau bod polisiau a mentrau newydd yn gyson â, ac nad ydynt yn tanseilio, Cynllun Iaith Gymraeg CICA na gwasanaethau Cymraeg sefydliadau eraill, ble fo'n berthnasol.
9. Yn benodol, mae'r CICA yn ymgymryd i sicrhau, cymaint â'i bod o fewn ei rym, nad yw deddfwriaeth a gweithdrefnau gweinyddol newydd y mae'n gyfrifol amdanynt yn atal na llesteirio defnydd o'r Gymraeg.
10. Mae staff wedi eu cyfarwyddo i ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg cyn cyflwyno unrhyw bolisi neu fenter newydd. Caiff y mesurau a gynhwysir yn y Cynllun hwn eu cymhwyso i bolisiau a mentrau newydd pan y'i gweithredir. Os bydd cyfle perthnasol yn codi, fe ddefnyddir polisiau a mentrau newydd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg gan alluogi CICA i roi mwy o effaith i'r egwyddor o gydraddoldeb i Saesneg a'r Gymraeg yng Nghymru.
11. Mae CICA yn ymrwmo i ymgynghori â Bwrdd yr Iaith o flaen llaw parthed polisiau a mentrau newydd fydd yn effeithio ar ei Gynllun Iaith Gymraeg, neu a allai effeithio ar gynlluniau sefydliadau eraill, trwy, ble fo'n briodol, gynnwys Bwrdd yr Iaith yn y broses ymgynghori berthnasol.

### **Darparu Gwasanaethau**

12. Hysbyswyd staff o'u cyfrifoldebau parthed Deddf yr Iaith Gymraeg, a darparwyd canllaw a chyfarwyddyd manwl i'r rhai all fod angen gweithredu mesurau iaith Gymraeg. Hysbyswyd staff o'r sefyllfa ieithyddol yng Nghymru a'u cyfrifoldebau dan y Cynllun trwy amrywiol ffyrdd, fel sy'n briodol i'w rôl, e.e. canllaw ysgrifenedig; seminarau; newyddlen staff; ac ati.
13. Mae gan CICA drefniant gyda gwasanaeth cyfieithu sy'n ein galluogi i ddefnyddio hwylusydd allanol i allu ymateb i unrhyw geisiadau yn Gymraeg ac mae staff wedi cael gwybod am yr adnodd hwn.

### **Cyfathrebu â Phobl sy'n Siarad Cymraeg**

#### **Cyfathrebu Ysgrifenedig**

14. CICA welcomes correspondence in Welsh and in English and undertakes that correspondence received in Welsh will receive a reply in Welsh and that bilingual correspondence will receive a bilingual reply. Our aim is to send either a substantive reply, or a holding reply, within 15 working days whether the correspondence is in English or Welsh. This commitment applies equally to e-mail communication. CICA does not send unsolicited mail.

### **Telephone communications with the public**

15. The CICA is based in Glasgow and as no Welsh speakers are currently employed, no Welsh telephone service can be provided at present. Future recruitment exercises will invite Welsh speakers to apply for posts in order that we could provide a telephone service in Welsh.

### **Public or Other Meetings**

16. It would be highly unusual if CICA were to hold meetings with members of the public. However, should a meeting be arranged in Wales, we would establish the preferred language choice of those taking part before the meeting and make translation arrangements if required. We will of course monitor this situation and make appropriate arrangements should the frequency or demand for meetings change.

### **Other dealings with the public**

17. Other forms of communication, such as email or televideo links, may be used for dealing with the public. Where CICA intends to use televideo links for conducting meetings with members of the public in Wales, the opportunity will be provided for the meeting to be conducted in Welsh.

18. Where other forms of communication are used to deal with members of the public in Wales, CICA undertakes to make similar Welsh language provisions.

### **Publications**

19. CICA will publish material made available to the public bilingually, with the Welsh and English versions together in one document. If the Welsh and English versions have to be published separately (for instance, where a single document would be too lengthy or bulky), both versions will be of equal size and quality - and our normal practice will be to ensure that both versions are available at the same time and are equally accessible.

20. Where Welsh and English versions of published material are made available separately, each will carry a message at the top of the first page of the document confirming that the publication is available in the other language. Publication will be simultaneous in England, Scotland and Wales.

14. Mae CICA yn croesawu cyfathrebu yn y Gymraeg a Saesneg ac yn ymgymryd y bydd cyfathrebu a dderbynnir yn Gymraeg yn derbyn ateb Cymraeg ac y bydd cyfathrebu dwyieithog yn derbyn ateb dwyieithog. Ein hamcan yw i naill ai anfon ateb sylweddol, neu ateb dros dro, o fewn 15 niwrnod gwaith p'un a yw'r cyfathrebiad yn y Gymraeg neu Saesneg. Mae'r ymroddiad hwn yr u mor berthnasol i gyfathrebu e-bost. Nid yw'r CICA yn anfon post digymell.

### **Cyfathrebu dros y ffôn â'r cyhoedd**

15. Mae'r CICA wedi ei leoli yn Glasgow a gan na chyflogir siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd, ni ellir darparu gwasanaeth ffôn Cymraeg. Bydd ymarferion recriwtio yn y dyfodol yn gwahodd siaradwyr Cymraeg i ymgeisio am swyddi er mwyn i ni allu darparu gwasanaeth ffôn yn Gymraeg.

### **Cyfarfodydd Cyhoeddus neu Eraill**

16. Byddai'n anarferol iawn i'r CICA gynnal cyfarfodydd gyda'r cyhoedd. Fodd bynnag, pe byddem yn trefnu cyfarfod yng Nghymru, byddem yn sefydlu dewis iaith y rhai sy'n cymryd rhan cyn y cyfarfod ac yn gwneud trefniadau cyfieithu os oes angen. Wrth gwrs, byddwn yn monitro'r sefyllfa hon ac yn gwneud trefniadau priodol os bydd amllder neu'r galw am gyfarfodydd yn newid.

### **Ymwneud arall â'r cyhoedd**

17. Efallai y defnyddir mathau eraill o gyfathrebu, megis e-bost neu gyswllt fideo, wrth ddelio â'r cyhoedd. Ble fo'r CICA yn bwriadu defnyddio cyswllt teleffideo i gynnal cyfarfodydd gyda'r cyhoedd yng Nghymru, bydd cyfle i gynnal y cyfarfod trwy gyfrwng y Gymraeg.

19. Ble defnyddir mathau eraill o gyfathrebu i ddelio ag aelod o'r cyhoedd yng Nghymru, mae'r CICA yn ymgymryd i wneud darpariaethau Cymraeg tebyg.

### **Cyhoeddiadau**

19. Bydd CICA yn cyhoeddi deunydd sydd ar gael i'r cyhoedd yn ddwyieithog, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar gael yn yr un ddogfen. Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, os bydd un ddogfen yn rhy hir neu'n rhy swmpus), bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd - a'n harfer safonol fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd a'r un mor hygyrch.

20. Ble darperir fersiynau Cymraeg a Saesneg o ddeunydd a gyhoeddir ar wahân, bydd neges ar bob un ar frig tudalen gyntaf y ddogfen yn cadarnhau ei fod ar gael yn yr iaith arall. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar yr un pryd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.



21. Both versions will be equally accessible to the public. If there is a charge for a document the price of the Welsh version will not be greater than the price of the English version. Likewise, when a priced document is issued in bilingual format, its price will not be greater than a single language version of the document.
22. CICA's main publication is the guide to the Scheme. This document provides detail about the eligibility issues involved in qualifying for an award of compensation and the application process. This document will be made available in Welsh. If an applicant has expressed a preferred language choice of Welsh, we will correspond with them in Welsh, and provide a translation of all documents normally provided during the course of an application.

### **Forms**

23. Application forms and explanatory materials provided specifically for use by members of the public will be made available in Welsh. Where English and Welsh versions are provided separately, they:
  - will be issued simultaneously
  - will be equally available in other distribution points
  - will be distributed together in the post and
  - will carry a message that the form is also available in the other language.

### **Posters and Publicity Campaigns**

24. All of the publicity, exhibition and advertising material used in Wales (in order to target the general public) will be produced fully bilingually, or as separate Welsh and English versions. If the Welsh and English versions have to be published separately, both versions will be equal with regard to size, prominence and quality. Both versions will be available simultaneously whenever possible and will be equally accessible.

### **Consultations**

25. Our formal consultation documents will be made available in Welsh on our website at the same time that the English language version is posted. Respondents may respond in Welsh and their responses will be collated in the same manner as English language responses.

### **Press Notices**

26. Where the timing for their release permits, those press notices of particular interest to the Welsh speaking public will be made available in Welsh. Press notices issued specifically to the Welsh language or bilingual media in Wales will be produced in Welsh/bilingually.

21. Bydd y ddwy fersiwn yr un mor hygyrch i'r cyhoedd. Os codir tâl am ddogfen, ni fydd pris y fersiwn Gymraeg yn ddim mwy na phris y fersiwn Saesneg. Felly hefyd, os codir tâl am ddogfen ddwyieithog, ni fydd ei phris yn uwch na fersiwn uniaith o'r ddogfen honno.
22. Prif gyhoeddiad CICA yw'r canllaw i'r Cynllun. Mae'r ddogfen hon yn darparu manylion am faterion cymhwyster sy'n gysylltiedig â bod yn gymwys i dderbyn dyfarniad a'r broses ymgeisio. Bydd y ddogfen hon ar gael yn Gymraeg. Os yw ymgeisydd wedi mynegi mai Cymraeg yw eu dewis iaith, byddwn yn cyfathrebu â nhw yn Gymraeg, ac yn darparu cyfieithiad o'r holl ddogfennau sy'n cael eu darparu yn ystod cais yn gyffredinol.

### **Ffurflenni**

23. Bydd ffurflenni cais a deunydd esboniadol a ddarperir yn benodol i'w defnyddio gan y cyhoedd ar gael yn y Gymraeg. Os darperir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant:
  - yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd
  - ar gael yn gyfartal mewn pwyntiau dosbarthu eraill
  - yn cael eu dosbarthu gyda'i gilydd yn y post
  - Yn cario neges yn cadarnhau bod y ffurflen hefyd ar gael yn yr iaith arall.

### **Posterï ac Ymgyrchoedd Cyhoeddusrwydd**

24. Caiff yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a deunydd hysbysebu a ddefnyddir yng Nghymru (er mwyn targedu'r cyhoedd) eu cynhyrchu'n ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd. Bydd y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd ble bynnag fo'n bosibl ac yr un mor hygyrch.

### **Ymgynghoriadau**

25. Bydd ein dogfennau ymgynghori ffurfiol ar gael yn Gymraeg ar ein gwefan ar yr un pryd ag y cyhoeddir y fersiwn Saesneg. Gall ymatebwyr ymateb yn Gymraeg a bydd eu hymatebion yn cael eu casglu ynghyd yn yr un modd â'r ymatebion Saesneg.

### **Datganiadau i'r Wasg**

26. Ble fo amseriad y datganiad yn caniatáu, bydd datganiadau i'r wasg sydd o ddiddordeb arbennig i'r cyhoedd Cymraeg ar gael yn y Gymraeg. Bydd datganiadau i'r wasg a gyhoeddir yn benodol ar gyfer y wasg Gymraeg neu ddwyieithog yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu yn Gymraeg/dwyieithog.

## Recruitment

27. CICA does not recruit staff directly. We are sponsored by the Ministry of Justice who are responsible for our future staffing complement. If the MoJ places staff recruitment advertisements in English language newspapers (or similar media) distributed mainly or wholly in Wales, they will be bilingual, or appear as separate Welsh and English versions. Notices will be in Welsh in Welsh language publications. The Welsh and English versions will be equal in terms of format, size, quality and prominence - whether produced as a single bilingual version, or as separate Welsh and English notices. (The MoJ have their own Welsh Language Scheme).

## Informing the Welsh Speaking Public of CICA's Services

28. We will include in our publications that our Scheme and Guide are available in Welsh. Our website will feature our Welsh Language Scheme so that applicants in Wales are aware of the services we are able to provide.
29. We will offer the public the right to choose to communicate in Welsh. Correspondence initiated in Welsh, or where a preference for Welsh is known, will be followed up in Welsh. We will include a question in our application process to allow a person to express a preference to have their application dealt with in Welsh. A preference for Welsh will be recorded on our case database. We will also include the offer to communicate in Welsh on our website.
30. We will liaise with Victim Support in Wales to advise them of the provision of our services in Welsh and consult with them to ensure that we meet the needs of Welsh speaking applicants. We intend that our Welsh speaking applicants, so far as it is appropriate in the circumstances and reasonably practicable, will receive a quality of service equal to that of our English speaking applicants.

## Website

31. When designing new websites, or redeveloping our existing website, we will take into account the Welsh Language Board's *Bilingual Software Guidelines and Standards* and any other guidance issued by the Board with regard to developing websites. Whenever we post English language publications on our websites, the Welsh versions will be posted at the same time, if available.
32. CICA will make appropriate use of the Internet in fulfilling its commitments under the Welsh Language Act and will ensure that Welsh language material on our website is easily accessible.
33. CICA will ensure that at least the following appear on our website:

## Recriwtio

27. Nid yw CICA yn recriwtio staff yn uniongyrchol. Fe'n noddur gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n gyfrifol am ein cyflenwad o staff yn y dyfodol. Os bydd y Weinyddiaeth yn gosod hysbysebion i recriwtio staff mewn papurau newydd (neu gyfryngau tebyg) Saesneg a ddsberthir ar y cyfan neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, byddant yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos yn Gymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd hysbysiadau Cymraeg mewn cyhoeddiadau Cymraeg. Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd - p'un a chânt eu cyhoeddi fel un fersiwn ddwyieithog, neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân. (Mae gan y Weinyddiaeth eu Cynllun Iaith Gymraeg eu hunain).

## Hysbysu Siaradwyr Cymraeg am Wasanaeth CICA

28. Byddwn yn cynnwys yn ein cyhoeddiadau bod ein Cynllun a Chanllaw ar gael yn y Gymraeg. Bydd ein gwefan yn cynnwys ein Cynllun Iaith Gymraeg er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yng Nghymru yn ymwybodol o'r gwasanaethau y gallwn ddarparu.
29. Byddwn yn cynnig yr hawl i'r cyhoedd ddewis cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd cyfathrebu cychwynnol yn Gymraeg, neu ble fo'n wyddys y ffafriwr y Gymraeg, yn cael ei gwblhau yn Gymraeg. Byddwn yn cynnwys cwestiwn yn ein proses ymgeisio i ganiatáu i unigolyn fynegi dewis i gael delio â'u cais trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd dewis Cymraeg yn cael ei gofnodi ar ein cronfa ddata achosion. Byddwn hefyd yn cynnwys y cynnig i gyfathrebu yn y Gymraeg ar ein gwefan.
30. Byddwn yn cysylltu â Chymorth i Ddiodefwyr yng Nghymru i'w hysbysu o'r ddarpariaeth o'n holl wasanaethau yn y Gymraeg ac yn ymgynghori â nhw i sicrhau ein bod yn diwallu anghenion ymgeiswyr Cymraeg. Cyn belled â'i bod yn briodol ac yn ymarferol rhesymol dan yr amgylchiadau, rydym yn bwriadu y bydd ein hymgeiswyr Cymraeg yn derbyn gwasanaeth o ansawdd sy'n gyfartal i'n hymgeiswyr Saesneg.

## Gwefan

31. Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu wrth ail ddatblygu'n gwefan gyfredol, byddwn yn ystyried *Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog Bwrdd yr Iaith Gymraeg* ac unrhyw ganllawiau tebyg a gyhoeddir gan y Bwrdd ynglŷn â datblygu gwefannau. Pryd bynnag y rhoddwn gyhoeddiadau Saesneg ar ein gwefannau, caiff y fersiynau Cymraeg eu rhoi arnynt ar yr un pryd, os ydynt ar gael.
32. Bydd CICA yn gwneud defnydd priodol o'r Rhyngwrdd wrth gyflawni ei ymrwymadau dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg ac yn sicrhau bod deunydd Gymraeg yn hygyrch ar ein gwefan.
33. Bydd CICA yn sicrhau bod o leiaf y canlynol yn ymddangos ar ein gwefan:

- CICA's Welsh Language Scheme (in both English and Welsh)
- A list of which CICA publications are available in Welsh
- A Welsh version of our main guide to the Scheme
- A downloadable version of our application forms

## ICT

34. When designing or improving our information technology we will take into account the Welsh Language Board's *Bilingual Software Guidelines and Standards* and any other guidance issued by the Board with regard to developing ICT.

## Corporate identity in Wales

35. CICA is based in Glasgow and has no offices located in Wales. The question of presenting a bilingual corporate identity in Wales in respect of CICA's name, address, logo, etc is therefore limited to the specific measures identified throughout the Scheme.
36. Welsh headed letters will be produced for correspondence in Welsh. Where documents are produced bilingually or in Welsh, CICA's name will appear in Welsh on the Welsh version.

## Services Provided by Third Parties

37. It is important that we ensure that our contracts with third parties meet the provisions of the Welsh Language Act. We will provide staff guidance on ensuring that contract provisions cover this. In particular, as we develop or procure ICT systems we will take into account the Welsh Language Board's *Bilingual Software Guidelines and Standards*.
38. CICA undertakes to ensure that any agreements or arrangements made with third parties which relate to the provision of services to the public in Wales are consistent with the terms of this Scheme. This commitment includes services which are contracted out.
39. Where relevant, requirements concerning the Welsh language will form part of the tendering documents and subsequent contracts, agreements or arrangements that arise.
40. Monitoring the implementation of Welsh Language Act matters for the purposes of this Scheme by contractors and other parties will be the responsibility of relevant CICA managers and, overall, CICA's Deputy Chief Executive.

- Cynllun Iaith Gymraeg CICA (yn Gymraeg a Saesneg)
- Rhestr o ba gyhoeddiadau CICA sydd ar gael yn y Gymraeg
- Fersiwn Gymraeg o'n prif ganllaw i'r Cynllun
- Fersiwn i'w lawrlwytho o'n ffurflenni cais

## TGCh

34. Wrth ddylunio neu wella'n technoleg gwybodaeth, byddwn yn ystyried *Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog* Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac unrhyw ganllawiau tebyg a gyhoeddir gan y Bwrdd ynglŷn â datblygu TGCh.

## Hunaniaeth gorfforaethol yng Nghymru

35. Mae CICA wedi ei leoli yn Glasgow ac nid oes ganddynt unrhyw swyddfeydd yng Nghymru. Felly, mae'r mater o gyflwyno hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yng Nghymru parthed enw CICA, cyfeiriad, logo ac ati wedi ei gyfyngu i'r mesurau penodol a nodwyd trwy gydol y Cynllun.
36. Cynhyrchir penawdau llythyr Cymraeg ar gyfer gohebiaeth Gymraeg. Os cynhyrchir dogfennau'n ddwyieithog neu'n Gymraeg, bydd enw CICA yn ymddangos yn Gymraeg ar y fersiwn Gymraeg.

## Gwasanaethau a Ddarperir trwy Drydydd Partïon

37. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod ein cytundebau gyda thrydydd partiön yn bodloni darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg. Byddwn yn darparu canllaw i staff ar sicrhau bod darpariaethau cytundeb yn delio â'r mater hwn. Yn benodol, wrth i ni ddatblygu neu brynu systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i *Ganllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog* y Bwrdd.
38. Mae CICA yn ymgymryd i sicrhau y bydd unrhyw gytundeb neu drefniant sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru a wneir gyda thrydydd parti yn gyson â thelerau'r Cynllun hwn. Mae'r ymroddiad hwn yn cynnwys gwasanaethau a roddir ar gytundeb allanol.
39. Bel fo'n berthnasol, bydd gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg yn rhan o'r dogfennau tendro a chontractau, cytundebau neu drefniadau dilynol sy'n codi.
40. Rheolwyr CICA fydd yn gyfrifol am fonitro gweithrediad Deddf yr Iaith Gymraeg i ddibenion y Cynllun hwn gan gontractwyr a phartiön eraill ac, yn gyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr CICA.

## **Our Staff**

42. It has not previously been the case that demand for Welsh communications has been sufficient to require us to employ staff who can communicate in Welsh. However, we recognise that the more pro-active approach we are adopting may change that. As part of our recruitment process, we will invite Welsh-speaking staff to apply for recruitment opportunities as previously outlined in Paragraph 27.
43. We will ensure that our staff are aware of the Scheme and the organisation's responsibilities under the Act. Although individual managers will be responsible for different aspects of the Scheme, a senior member of staff in the policy team will lead on organisational monitoring and coordination of activities in accordance with this Scheme and action plan.

## **Monitoring**

44. The policy team will be responsible for monitoring and reviewing the implementation of the measures set out in this Scheme.
45. The policy team will collect information annually on:
  - policies or initiatives that have actively promoted or facilitated the use of the Welsh language
  - the number of items of correspondence that have been received in Welsh
  - description of materials published in whole, in part or in summary form in Welsh
  - the activities of those who provide services on behalf of CICA where Welsh language measures agreed with CICA have formed part of those services
  - steps taken to encourage and facilitate the use of Welsh by other parties
  - achievements against the timetable in the Scheme set out below
  - the incidents and nature of any complaints and suggestions relating to the provision of CICA's services in Welsh and action that has been taken in the light of these
46. CICA will monitor requests from enquirers for services in Welsh and will consider what if any additional measures might be applicable in the light of the level of demand.
47. Additionally CICA will periodically encourage staff to voluntarily record any skills they have in the Welsh language (as part of a wider voluntary skills audit) to establish what Welsh language capability exists across the organisation.
48. Complaints relating to specific CICA Welsh language measures will be written in the language of the complaint.

## Ein Staff

42. Ni fu'n wir yn y gorffennol y bu galw am gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg wedi bod yn ddigon i fod yn ofynnol i ni gyflogi staff all gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai'n arddull mwy rhagweithiol newydd newid hynny. Yn rhan o'n proses recriwtio, byddwn yn gwahodd siaradwyr Cymraeg i ymgeisio am gyfleoedd recriwtio fel yr amlinellwyd yn flaenorol ym Mharagraff 27.
43. Byddwn yn sicrhau bod ein staff yn ymwybodol o'r Cynllun a chyfrifoldebau'r sefydliad dan y Ddeddf. Er y bydd rheolwyr unigol yn gyfrifol am wahano agweddau o'r Cynllun, bydd uwch aelod o staff yn y tîm polisi yn arwain ar fonitro sefydliadol a chydlynu gweithgareddau yn unol â'r Cynllun hwn a chynllun gweithredu.

## Monitro

44. Bydd y tîm polisi yn gyfrifol am fonitro ac adolygu gweithrediad y mesurau a gyflwynir yn y Cynllun hwn.
45. Bydd y tîm polisi yn casglu gwybodaeth yn flynyddol ar:
  - bolisiau neu fentrau sydd wedi eu hyrwyddo neu hwyluso'n weithredol trwy gyfrwng y Gymraeg
  - y nifer o eitemau o gyfathrebu a dderbyniwyd yn y Gymraeg
  - disgrifiadau o'r deunyddiau a gyhoeddwyd yn gyfan, yn rhannol neu ar ffurf crynodeb yn y Gymraeg
  - gweithgareddau'r rhai sy'n darparu gwasanaethau ar ran CICA ble mae mesurau Cymraeg y cytunwyd arnynt gyda CICA wedi bod yn rhan o'r gwasanaethau hynny
  - camau a gymerwyd i annog a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg gan bartion eraill
  - cyflawniadau yn erbyn yr amserlen yn y Cynllun a gyflwynir isod
  - achosion a natur unrhyw gwynion ac awgrymau yn ymwneud â'r ddarpariaeth o wasanaethau CICA trwy gyfrwng y Gymraeg a gweithredu o ganlyniad iddynt
46. Bydd CICA yn monitro ceisiadau gan ymholwyr am wasanaethau yn y Gymraeg ac yn ystyried pa fesurau atodol os o gwbl allai fod yn berthnasol o ganlyniad i lefel y galw.
47. Yn atodol, bydd CICA yn annog staff yn achlysurol i gofnodi unrhyw sgiliau iaith Gymraeg sydd ganddynt yn wirfoddol (yn rhan o archwiliad sgiliau gwirfoddol ehangach) i sefydlu faint o allu Cymraeg sy'n bodoli ledled y sefydliad.
48. Bydd cwynion yn ymwneud yn benodol â mesurau Cymraeg CICA yn cael eu hysgrifennu yn iaith y cwyn.



49. CICA will provide the Welsh Language Board with an annual report on its Welsh Language Scheme in June each year. The report will describe progress in implementing the measures in the Scheme against the approved timetable and standards and will analyse the number and nature of any complaints and suggestions for improvement received from the public.
50. A summary of the monitoring report will be available to the public on the CICA website. This will include an explanation if targets or standards are not met and the steps to be taken to put matters right.

#### CICA Welsh Language Scheme - Main targets for Scheme Delivery

Target	Date of Completion
<b>1. Staff Guidance</b> We will provide guidance to staff to enable them to carry out their responsibilities under the Welsh Language Scheme.	Ready for Scheme implementation
<b>2. Staff Awareness Sessions</b> We will promote knowledge of the Scheme among staff by holding seminars and using our staff news facility.	Ready for Scheme Implementation
<b>3. Translation Service</b> We will have in place an arrangement with a translation company who are able to satisfy all of our Welsh Language requirements.	Completed
<b>4. Agencies</b> We will liaise with Victim Support in Wales to ensure that our services meet the needs of Welsh speaking applicants.	Within 2 months of Scheme approval
<b>5. Website</b> We will ensure that the documents referred to in this Scheme are available in Welsh and are updated as required.	Ready for Scheme Implementation
<b>6. Champion</b> We will establish a champion in CICA to promote the Scheme both internally and externally.	Ready for Scheme approval
<b>7. Contracts</b> We will amend our standard contracts and contract templates to include reference to the Welsh Language Scheme.	Ready for Scheme Implementation
<b>8. Publicity for the Scheme</b> We will publicise the Scheme on our website and in our guide to the Scheme and application forms.	Ready for Scheme Implementation
<b>9. Monitor the demand and effectiveness of the Scheme</b> We will collect information in order to monitor the effectiveness of the Scheme and promote the use of the Welsh language.	Ongoing from Scheme implementation

49. Bydd CICA yn darparu adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith ar ei Gynllun Iaith Gymraeg ym Mehefin pob blwyddyn. Bydd yr adroddiad yn disgrifio'r cynnydd gyda gweithredu'r mesurau yn y Cynllun yn erbyn yr amserlen a'r safonau a gymeradwywyd a bydd yn dadansoddi nifer a natur unrhyw gwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau a gafwyd gan y cyhoedd.
50. Bydd crynodeb o'r adroddiad monitro ar gael i'r cyhoedd ar wefan CICA. Bydd yn cynnwys esboniad os na fodlonir targedau neu safonau a'r camau i unioni hynny.

### Cynllun Iaith Gymraeg CICA - Prif dargedau ar gyfer Cyflawni'r Cynllun

Targed	Dyddiad Cwblhau
<b>1. Cyfarwyddyd Staff</b> Byddwn yn darparu cyfarwyddyd i staff i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau dan y Cynllun Iaith Gymraeg.	Barod am Weithrediad y Cynllun
<b>2. Sesiynau Ymwybyddiaeth Staff</b> Byddwn yn hyrwyddo gwybodaeth o'r Cynllun ymysg staff trwy gynnal seminarau a defnyddio'n cyfleuster newyddion staff.	Barod am Weithrediad y Cynllun
<b>3. Gwasanaeth Cyfieithu</b> Bydd gennym drefniant gyda chwmni cyfieithu sy'n gallu bodloni'n holl ofynion Cymraeg.	Cwblhawyd
<b>4. Asiantaethau</b> Byddwn yn cysylltu â Chymorth i Ddiodefwyr yng Nghymru i sicrhau bod ein gwasanaethau yn diwallu anghenion ymgeiswyr Cymraeg eu hiaith.	O fewn 2 fis i gymeradwyo'r Cynllun
<b>5. Gwefan</b> Byddwn yn sicrhau bod y dogfennau y cyfeirir atynt yn y Cynllun hwn ar gael yn Gymraeg ac yn cael eu diweddarau fel fo angen.	Barod am Weithrediad y Cynllun
<b>6. Hyrwyddwr</b> Byddwn yn sefydlu hyrwyddwr yn CICA i hyrwyddo'r Cynllun yn fewnol ac allanol.	Barod am Gymeradwyae th y Cynllun
<b>7. Cytundebau</b> Byddwn yn addasu ein cytundebau safonol a thempledi cytundebau i gynnwys cyfeiriad at y Cynllun Iaith Gymraeg.	Barod am Weithrediad y Cynllun
<b>8. Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun</b> Byddwn yn rhoi sylw i'r Cynllun ar ein gwefan ac yn ein canllaw i'r Cynllun a ffurflenni cais.	Barod am Weithrediad y Cynllun
<b>9. Monitro'r galw ac effeithiolrwydd y Cynllun</b> Byddwn yn casglu gwybodaeth er mwyn monitro effeithiolrwydd y Cynllun ac yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg.	Parhaus o weithrediad y Cynllun

<b>10. Monitor the need for Welsh speaking staff</b> We will monitor the demand for Welsh communication and invite Welsh speaking staff to apply for recruitment opportunities.	<b>Ongoing from Scheme implementation</b>
<b>11. Annual report</b> We will provide the Welsh Language Board with an annual report on the progress of our Welsh Language Scheme.	<b>Annually from Scheme implementation</b>
<b>12. Equality</b> We will treat the English and Welsh Languages on a basis of equality	<b>Ongoing from Scheme implementation</b>

Questions, comments or complaints about our Scheme or Action Plan should be addressed to:

Pat Arnott  
 Senior Policy Advisor  
 Criminal Injuries Compensation Authority  
 Tay House  
 300 Bath Street  
 Glasgow  
 G2 4LN

[Policy\\_and\\_Legal\\_Services@cica.gsi.gov.uk](mailto:Policy_and_Legal_Services@cica.gsi.gov.uk)

<b>10. Monitro'r angen am staff sy'n siarad Cymraeg</b> Byddwn yn monitro'r galw am gyfathrebu Cymraeg ac yn gwahodd staff sy'n siarad Cymraeg i wneud cais am gyfleoedd recriwtio.	<b>Parhaus o weithrediad y Cynllun</b>
<b>11. Adroddiad blynyddol</b> Byddwn yn darparu adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith ar gynnydd ein Cynllun Iaith Gymraeg.	<b>Yn flynyddol o weithrediad y Cynllun</b>
<b>12. Cydraddoldeb</b> Byddwn yn trin y Gymraeg a Saesneg ar sail gyfartal	<b>Parhaus o weithrediad y Cynllun</b>

Dylid cyfeirio cwestiynau, sylwadau neu gwynion am ein Cynllun neu Gynllun Gweithredu at:

Pat Arnott  
 Uwch Ymgynghorwr Polisi  
 Yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol  
 Tay House  
 300 Bath Street  
 Glasgow  
 G2 4LN

[Policy\\_and\\_Legal\\_Services@cica.gsi.gov.uk](mailto:Policy_and_Legal_Services@cica.gsi.gov.uk)